**Cyngor Bro Morgannwg**
**Vale of Glamorgan Council**
**www.bromorgannwg.gov.uk**

**Canllawiau ar Siarad yn Gyhoeddus mewn Pwyllgor Cynllunio**

Bydd y darpariaethau yn y ddogfen hon yn berthnasol i holl gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio y mae'r Cyngor / Cadeirydd yn penderfynu eu cynnal ar sail rithwir yn unig neu ar sail hybrid (h.y. mynychu o bell).

Dylai personau sy'n ystyried siarad mewn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio roi sylw ymlaen llaw i Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad y Cyngor, sydd i'w weld drwy ddilyn y ddolen hon.

D.S. Mae'n bwysig cydnabod y bydd cyfarfodydd y mae'r Cyngor / Cadeirydd yn penderfynu eu cynnal ar sail rithwir yn unig neu hybrid (h.y. mynychu o bell) yn amodol ar drawsyriad gwe byw ("ffrwd fyw").

**Sylwadau Ysgrifenedig ar Geisiadau Cynllunio sydd wedi'u cynnwys yn Agenda'r cyfarfod diweddaraf a gyhoeddwyd ac sydd i'w penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio**

Lle bynnag y bo modd, dylid gwneud gwrthwynebiadau neu sylwadau ar geisiadau cynllunio yn ysgrifenedig. Bydd sylwadau ysgrifenedig ar geisiadau cynllunio sy'n dod i law cyn hanner dydd ar y diwrnod cyn y Pwyllgor Cynllunio (ddydd Mercher wythnos y Pwyllgor lle cynhelir cyfarfodydd ar ddydd Iau), yn cael eu derbyn ac ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Mae croeso i sylwadau ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd sylwadau sy'n dod i law yn rhy hwyr yn cael eu cynnwys yn adroddiad y pwyllgor o fewn y papurau agenda a gyhoeddwyd, ond bydd y rheiny sy'n dod i law cyn hanner dydd y diwrnod cyn diwrnod y cyfarfod yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio y noson cyn diwrnod y Pwyllgor ac yn cael eu labelu'n 'Materion sy'n Codi'. Bydd copïau caled o'r Materion sy'n Codi hefyd ar gael i'r cyhoedd yn y cyfarfod ei hun.

Rhaid i gopïau caled o agendâu ac adroddiadau fod ar gael i'r cyhoedd os cynhelir cyfarfodydd yn gorfforol ac mae'n ofyniad hefyd i'r Cyngor sicrhau darpariaeth ar gyfer aelodau o'r cyhoedd na allant gael gafael ar ddogfennau, er enghraifft drwy ddarparu mynediad at gyfrifiaduron, copïau cyfyngedig o ddogfennau mewn cyfarfodydd neu drwy ffi neu sicrhau bod dogfennau ar gael i'w harchwilio yn y Swyddfeydd Dinesig, drwy gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu drwy ddesg y brif dderbynfa.

Cyhoeddir y Papurau Agenda ar gyfer y cyfarfod perthnasol yn electronig o leiaf 9 diwrnod (gan gynnwys penwythnosau) cyn dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor.

**Sylwadau Llafar ar Geisiadau Cynllunio sydd wedi'u cynnwys yn Agenda'r cyfarfod diweddaraf a gyhoeddwyd ac sydd i'w penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio**

Ar rai achlysuron, bydd ymgeiswyr neu wrthwynebwyr, neu'r ddau, am wneud sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor Cynllunio. Mae croeso i sylwadau llafar (siarad yn gyhoeddus) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd unrhyw Sylwadau'n cael eu clywed gan y Pwyllgor ond ni fydd trafodaeth arnynt. Dan amgylchiadau o'r fath, defnyddir y weithdrefn ganlynol.

Rhaid cael rhybudd digonol ymlaen llaw gan siaradwyr er mwyn pennu presenoldeb tebygol y cyhoedd a chynnig cymorth a chyngor i'r rheini nad ydynt yn siŵr beth i'w wneud nesaf a / neu sy'n dymuno annerch y Pwyllgor yn Gymraeg. Efallai y bydd hefyd angen datrys unrhyw faterion yn ymwneud ag enwebu siaradwr a rhoi amserlen resymol i'r unigolyn hwnnw gydlynu ei ymateb.

Oni bai y rhowch wybod i'r Gwasanaethau Democrataidd yn benodol i'r gwrthwyneb, drwy gofrestru i siarad rydych yn rhoi caniatâd i'r Cyngor anfon eich manylion cyswllt at eraill (o'r un farn) sydd am siarad, er mwyn eich helpu i enwebu un llefarydd

Rhowch wybod i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd, cyn gynted â phosibl ar 01446 709855 neu Democratic@valeofglamorgan.gov.uk, os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch i gyflwyno'ch sylwadau. Er enghraifft, defnydd dolen glyw.

Bydd y llythyron hysbysu cymdogion a'r llythyr cydnabyddiaeth cais cynllunio hefyd yn rhoi gwybod i ymatebwyr a'r ymgeiswyr ynghylch eu hawl i siarad yn y pwyllgor, a chyfrifoldeb y rheini sydd am siarad yw cofrestru i siarad.

**Cofrestru i Siarad**

Cyhoeddir y Papurau Agenda ar gyfer y cyfarfod perthnasol yn electronig o leiaf 9 diwrnod (gan gynnwys penwythnosau) cyn dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor.

Bydd y cyfnod i wneud cais am siarad yn y cyfarfod yn agor am 8.30am y diwrnod ar ôl cyhoeddi'r Papurau Agenda a bydd yn parhau ar agor am 6 diwrnod (y diwrnod cyntaf yw'r diwrnod y bydd y cofrestru yn agor). Bydd y cyfnod cofrestru yn cau am 5.00pm ar y chweched diwrnod. Dylai aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru i siarad yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor wneud hynny drwy lenwi'r ffurflen gofrestru briodol i siarad yn gyhoeddus erbyn 5.00pm 3 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod heb gynnwys diwrnod y cyfarfod.

I gofrestru i siarad, dylech gwblhau'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn www.valeofglamorgan.gov.uk/planningcommittee

Cydnabyddir nad oes gan rai unigolion fynediad at gyfleuster electronig. Bydd yr unigolion hynny'n gallu cofrestru i siarad dros y ffôn ar 01446 709855 (gofynnir iddynt gyflwyno'r un wybodaeth sy'n ofynnol ar y ffurflen ar-lein) a bydd cadarnhad o'u cofrestriad yn cael ei roi ar lafar yn ystod yr alwad ffôn.

Ar ôl i chi gyflwyno eich Ffurflen Gofrestru, byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau awtomatig yn eich hysbysu eich bod wedi’ch cofrestru’n llwyddiannus. Ar ôl i’r Dyddiad Cau ar gyfer Cofrestru fynd heibio, bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd sy'n cefnogi'r Pwyllgor yn cysylltu â chi i roi copi o'r canllawiau hyn i chi.

**Amser Siarad**

Caniateir uchafswm o 6 munud ar gyfer y rheini sy’n cofrestru i siarad o blaid **neu** yn erbyn cais i annerch y Pwyllgor. Mae hyn yn cyfateb i uchafswm o 12 munud o amser siarad cyhoeddus fesul Cais Cynllunio.

Fel rheol, caniateir uchafswm o **3 munud** i bob siaradwr unigol i annerch y Pwyllgor, ar yr amod y rhoddir yr un faint o amser i’r rhai sy'n siarad o blaid **ac** yn erbyn y cais. Er enghraifft, os bydd dau berson neu fwy yn cofrestru i siarad yn erbyn cais, ond dim ond un person sy’n cofrestru i siarad o blaid, bydd yn cael 6 munud i siarad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod amser cyfartal yn cael ei roi i'r rhai sy'n siarad o blaid ac yn erbyn unrhyw gais.

Os bydd mwy na dau berson wedi'u cofrestru i siarad o blaid neu yn erbyn, fe'u hanogir i enwebu un siaradwr gan y bydd y cyfanswm o 6 munud yn cael ei ddyrannu rhwng yr holl bobl sydd wedi'u cofrestru. Rhaid bod unigolyn wedi ei gofrestru cyn y gall drosglwyddo yr amser siarad a neilltuwyd iddo i lefarydd enwebedig. Nid oes angen cofrestru'r llefarydd enwebedig.

Os yw dau neu fwy o siaradwyr wedi'u cofrestru i siarad ac nad oes unrhyw lefarydd yn cael ei enwebu, neu os na chaiff cytundeb ei wneud ar faint o amser sydd i'w ddyrannu rhwng y siaradwyr, yna bydd y 6 munud yn cael ei rannu'n gyfartal ymhlith yr holl siaradwyr cofrestredig.

Os dyrennir y 6 munud llawn i 2 siaradwr ond nad yw 1 o'r unigolion yn mynychu, neu os bydd yn tynnu'n ôl yn ystod y cyfarfod a/neu'n rhoi ei amser siarad i'r siaradwr arall sydd wedi’i gofrestru, yna bydd cyfanswm yr amser yn dychwelyd i 3 munud, oni bai bod 2 siaradwr ar yr ochr arall. Os mai dim ond 1 siaradwr sydd ar yr ochr arall yna bydd amser siarad y gwrthwynebydd hefyd yn dychwelyd i 3 munud. Glynir yn gaeth wrth y cyfyngiadau amser.

Tabl Enghreifftiol:

| O blaid | Dyraniad Unigolyn | Yn erbyn | Dyraniad Unigolyn | Cyfanswm yr Amser Siarad |
|---|---|---|---|---|
| 1 Siaradwr | 3 munud | 1 Siaradwr | 3 Munud | 6 Munud |
| 2 Siaradwr | 3 munud yr un | 1 Siaradwr<br>2 Siaradwr | 6 Munud<br>3 munud yr un | 12 Munud |
| 3+ Siaradwr | 6 Mun/Nifer y Siaradwyr | 1 Siaradwr<br>2 Siaradwr<br>3+ Siaradwr | 6 Munud<br>3 munud yr un<br>6 Mun/Nifer y Siaradwyr | 12 Munud |

Pan fydd 3 neu fwy o siaradwyr wedi'u cofrestru i siarad ar un ochr argymhellir y dylid enwebu un llefarydd am y bydd yr amser siarad hwyaf o 12 munud wedi ei gyrraedd a bydd hyd y dyraniad amser i bob unigolyn yn gostwng.

Ni chaiff y bobl hynny sy'n annerch y Pwyllgor ddosbarthu unrhyw ddogfennaeth i Aelodau yn y cyfarfod Pwyllgor, ac ni ddarperir unrhyw gyfleusterau ar gyfer cyflwyniadau.

D.S. Sylwch na ellir cofrestru i siarad ar eitemau sy'n ymwneud â Cham(au) Gorfodi. Dim ond ar gyfer ceisiadau cynllunio y caniateir cofrestru i siarad. Fodd bynnag, cewch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor o hyd ar Gamau Gorfodi os ydych yn dymuno gwneud hynny yn amodol ar yr amserlen a nodir ar Dudalen 1 y Canllawiau hyn.

## Pwy all siarad?

Yn amodol ar gydymffurfio â'r gofynion cofrestru a gweithdrefnol a nodir yn y canllawiau hyn, gall y bobl ganlynol siarad:

- Gwrthwynebwyr neu'r rhai sy'n mynegi pryderon ynghylch y cais neu eu cynrychiolydd.
- Yr Ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd a/neu unigolion eraill sy'n dymuno cefnogi cynnig, yn ôl disgresiwn yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd.
- Cynrychiolydd Cyngor Tref neu Gymuned; ac
- Unrhyw Gynghorydd a etholwyd i Gyngor Bro Morgannwg nad yw ar y Pwyllgor Cynllunio.

Nodwch nad yw'n ofynnol i Aelodau Etholedig Bro Morgannwg gofrestru i siarad, a chânt uchafswm o **5 munud** o amser siarad, ni waeth sawl Aelod sy'n dymuno siarad.

Rhaid i Gynrychiolwyr Cynghorwyr Tref a Chymuned gofrestru i siarad, a chânt uchafswm o 3 munud o amser siarad er mwyn iddynt gynrychioli eu cyngor unigol, ni waeth pwy arall sydd wedi'i gofrestru i siarad. Rhaid i'r unigolyn sydd wedi cofrestru i siarad ar ran y Cyngor Tref neu Gymuned gael ei enwebu gan Swyddog Priodol y Cyngor h.y. Clerc y Cyngor Tref neu Gymuned neu berson cyfatebol dros dro, a hynny drwy e-bost a anfonir at Democratic@valeofglamorgan.gov.uk. Dim ond un cynrychiolydd o bob Cyngor Tref a Chymuned a all siarad ar unrhyw gais unigol. Pan fydd ceisiadau trawsffiniol yn cael eu hystyried, bydd gan Gynghorwyr Tref a Chymuned o bob ardal 3 munud o amser siarad yn y Pwyllgor.

Dylai Llywodraethwyr Ysgol sydd wedi cofrestru i siarad, naill ai o blaid neu yn erbyn cais cynllunio sy'n ymwneud â'u hysgol, ddatgelu eu rôl fel Llywodraethwr Ysgol i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd erbyn canol dydd y diwrnod cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Gall methu â hysbysu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio effeithio ar hawl person i siarad.

**Materion a Ystyrir yn Berthnasol**

Dylai penderfyniadau cynllunio gael eu gwneud yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol. Ni ddylent fod yn seiliedig ar ystyriaethau amherthnasol. Dylai siaradwyr ystyried hyn a darllen rhagor o wybodaeth yn http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/planning_and_building_control/planning_committee/Planning-Committee.aspx

**Trefn y Pwyllgor**

Bydd y drefn fel a ganlyn (yn amodol ar berthnasedd y darpariaethau a nodir uchod os bydd mwy nag un person wedi cofrestru i siarad o blaid neu yn erbyn y cais):

- Yn y cyfarfod, bydd y Swyddog Cynllunio yn cyflwyno'r adroddiad ac yn mynd i'r afael ag unrhyw Faterion sy'n Codi.
- Gofynnir i'r rheini sy'n gwrthwynebu'r cais cynllunio gyflwyno'u sylwadau. Ni chaniateir i'r rheini sy'n siarad ofyn unrhyw gwestiynau i Swyddogion nac i'r Pwyllgor. Gall Aelodau'r Pwyllgor sydd eisiau gofyn am eglurhad ar unrhyw bwynt wneud hynny ar ddiwedd y cyfnod siarad a ganiateir, ond ni ddylent dorri ar draws na chwestiynu'r siaradwr/siaradwyr fel arall mewn unrhyw fodd.
  Mae Pwynt o Esboniad yn ymwneud yn uniongyrchol â'r sylwadau a ddarparwyd gan y Siaradwr ac yn ceisio eglurder ar yr hyn a ddywedwyd. Nid yw'n gyfle i ofyn cwestiynau i'r siaradwr ar rinweddau'r cais. Yr amcan yw sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor wedi deall yn llawn fwriad a chyd-destun sylwadau'r Siaradwr.
- Mae gan unrhyw Gynghorydd Bro Morgannwg sydd wedi datgan buddiant rhagfarnus hawl o hyd i siarad ar Gais Cynllunio yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ond rhaid iddo adael y cyfarfod cyn trafodaeth y Pwyllgor. Bydd terfyn amser o 5 munud yn berthnasol. D.S. Ni fydd unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio sydd â buddiant rhagfarnus yn gallu pleidleisio ar y Cais Cynllunio ei hun yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor.
- Bydd hawl gan holl Gynghorwyr Cyngor Bro Morgannwg nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio annerch y Pwyllgor, yn amodol ar gyfyngiad amser o 5 munud fesul Cynghorydd.
- Yna bydd gan unrhyw Gynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned hawl i annerch y pwyllgor, yn amodol ar gyfyngiad amser o 3 munud fesul Cynghorydd.
- Yna gofynnir i'r rheini sy'n cefnogi'r cais gyflwyno eu sylwadau. Ni chaniateir i'r rheini sy'n siarad ofyn unrhyw gwestiynau i Swyddogion nac i'r Pwyllgor. Gall Aelodau'r Pwyllgor sydd eisiau gofyn am eglurhad ar unrhyw bwynt wneud hynny ar ddiwedd y cyfnod siarad a ganiateir, ond ni ddylent dorri ar draws na chwestiynu'r siaradwr/siaradwyr fel arall mewn unrhyw fodd.
  Mae Pwynt o Esboniad yn ymwneud yn uniongyrchol â'r sylwadau a ddarparwyd gan y Siaradwr ac yn ceisio eglurder ar yr hyn a ddywedwyd. Nid yw'n gyfle i ofyn cwestiynau i'r siaradwr ar rinweddau'r cais. Yr amcan yw sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor wedi deall yn llawn fwriad a chyd-destun sylwadau'r Siaradwr.

- Yna gall Swyddogion y Cyngor wneud sylwadau ar y sylwadau a gafwyd a theilyngdod y cais.
- Bydd y Pwyllgor yn parhau i drafod y cais ac yn dod i benderfyniad. Gallai'r Cadeirydd ofyn i'r Swyddog Cynllunio neu'r Swyddog Cyfreithiol fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth. Bydd cofnodion y cyfarfod yn cynnwys y rhesymau dros y penderfyniad.
- Ni fydd hawl ymateb na gofyniad i'r siarad fod yn "gytbwys" os nad oes siaradwr wedi'i gofrestru mewn slot penodol.

D.S. Gofynnir i asiantau/ymgeiswyr ystyried rhinweddau siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor pan argymhellir y cais i'w gymeradwyo a lle nad oes unrhyw un sy'n gwrthwynebu wedi cofrestru i siarad.

Anogir asiantau/ymgeiswyr i gofrestru i siarad yn ystod y cyfnod cofrestru ac yna tynnu eu cofrestriad yn ôl cyn y cyfarfod os ydynt ond am siarad os oes siaradwr yn gwrthwynebu. Ar ôl i'r cyfnod cofrestru gau, bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn gallu cadarnhau cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cofrestru i siarad ar y cais, ond ni fydd yn darparu unrhyw wybodaeth benodol am y siaradwyr eu hunain.

**<u>Mynychu o bell neu'n wyneb yn wyneb</u>**

Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu ffrydio'n fyw dros y rhyngrwyd (gwe-ddarlledu) gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i wylio'r cyfarfod o bell naill ai'n fyw (ar yr adeg y cynhelir y cyfarfod) neu ar alw (yn ddiweddarach). Bydd aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad yn cael gwybod am hyn cyn y cyfarfod.

Bydd cyfarfodydd hybrid yn cael eu cynnal yn Siambr y Cyngor yn y Swyddfa Ddinesig yn y Barri.

Bydd aelodau o'r cyhoedd sydd wedi llwyddo i gofrestru i siarad yn gallu mynychu o bell neu gael yr opsiwn i fod yn bresennol wyneb yn wyneb. Dylai aelodau'r cyhoedd roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd am eu dewis yn hynny o beth o fewn 24 awr i amser dechrau'r cyfarfod.

Dylai'r rheiny sy'n mynychu o bell a'r rhai sydd wedi cofrestru i siarad ymuno â chyfarfod y Pwyllgor 15 munud cyn yr amser cychwyn cyhoeddedig. Bydd mynychwyr o bell yn cael dolen i ymuno â'r cyfarfod o'r llwyfan cyfarfodydd Easy Conference Connect o leiaf 1 awr cyn amser dechrau'r cyfarfod. Bydd y ddolen ymuno yn unigryw i bob siaradwr a chyfranogwr unigol, felly ni ddylid rhannu'r ddolen na'i hanfon ymlaen at berson arall.

Dylai'r rheiny sydd wedi cofrestru i siarad wyneb yn wyneb gyrraedd Siambr y Cyngor o leiaf 15 munud cyn yr amser cychwyn cyhoeddedig. Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn rhoi'r siaradwr cofrestredig mewn sedd fel sy'n briodol yn Siambr y Cyngor ac, ar yr adeg briodol, bydd y Cadeirydd yn gofyn iddo droi'r meicroffon ar ei ddesg ymlaen fel y gellir ei weld a'i glywed yn glir.

Ar adegau lle gall fod diffyg lle ffisegol mewn cyfarfod (e.e. o ganlyniad i bandemig COVID) neu lle gall fod problemau technolegol, bydd Cadeirydd cyfarfod,

swyddogion hanfodol sy'n cefnogi'r cyfarfod a chyfieithwyr ar y pryd yn cael blaenoriaeth o ran presenoldeb yn Siambr y Cyngor.

**Ceisiadau Gohiriedig**

Os caiff cais ei ohirio mewn cyfarfod pwyllgor ar y sail bod angen rhagor o wybodaeth, ymweld â safle a/neu ddadansoddi, bydd yr un weithdrefn ar gyfer siarad cyhoeddus yn berthnasol pan ystyrir y cais mewn cyfarfod(ydd) Pwyllgor dilynol. **Felly, bydd angen i unigolion a oedd wedi'u cofrestru i siarad ar gais, sydd wedi'i ohirio gan y Pwyllgor, ail-gofrestru cyn y cyfarfod nesaf pan gaiff y cais ei ail-ystyried.**

**Gwybodaeth arall**

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r person dan sylw (Adran 4.28 Cyfansoddiad y Cyngor). Os bydd yn parhau i darfu ar y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo gael ei symud o'r cyfarfod.

Nid yw'r weithdrefn hon yn berthnasol i ymweliadau safle'r Pwyllgor Cynllunio, lle na chaniateir unrhyw siarad cyhoeddus.

Pan fydd y Pwyllgor Cynllunio'n ystyried eitemau cyfrinachol ("Rhan II"), bydd y Cadeirydd yn gofyn i bob aelod o'r cyhoedd a'r wasg adael ystafell y cyfarfod (boed o Bell, yn Hybrid neu'n Gorfforol) cyn parhau gyda'r agenda. Bydd unrhyw recordiad o'r cyfarfod hefyd yn dod i ben.

Cynhelir Cyfarfodydd Cynllunio yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor yn Adran 19 o Gyfansoddiad y Cyngor ac Ymddygiad Aelodau – Yr Egwyddorion yn Atodiad 1 Adran 19.

**Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu**

(Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn atodol i Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor - gweler dolen iddo isod)
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn benodol ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

Mae Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn darparu cymorth a gweinyddiaeth ar gyfer system Bwyllgorau'r Cyngor er mwyn iddo weithredu'n effeithiol.

Yn benodol maent yn gwneud y canlynol:

- Trefnu ac amserlennu cyfarfodydd,
- Penderfynu a fydd y cyfarfod yn un cyhoeddus,
- Cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn ymwneud â'r cyfarfod,
- Gwahodd unigolion i fynychu,
- Ymdrin â gohebiaeth a dderbyniwyd yn ymwneud â busnes y cyfarfod,

- Ymdrin ag ymholiadau yn ymwneud â busnes y cyfarfod,
- Cymryd cofnodion y cyfarfod perthnasol,
- Cyhoeddi papurau agenda a chofnodion,
- Ymdrin ag unrhyw fater arall sy'n berthnasol i fusnes y cyfarfod,
- Trefnu i gadw dogfennau ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor.

Yng nghyd-destun yr hysbysiad hwn mae'r gair cyfarfod yn cynnwys:

- Cyfarfodydd y Cyngor
- Cyfarfodydd Is-bwyllgorau'r Cyngor
- Y Pwyllgor Cynllunio
- Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus (o'r Pwyllgor Cynllunio)
- Pwyllgor Craffu
- Cyfarfodydd Is-bwyllgor Craffu'r Cyngor
- Pwyllgor Apeliadau Addysg
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Unrhyw gyfarfod arall sy'n cael ei gynorthwyo gan y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu

Er mwyn hyrwyddo Llywodraeth a Democratiaeth agored cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus ac yn unol â hynny bydd unrhyw beth a drafodir yn y cyfarfodydd hynny yn gyhoeddus a bydd unrhyw gofnodion, recordiadau neu ffrydiau byw hefyd yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau lle nad yw'n briodol i faterion gael eu trafod yn gyhoeddus, er enghraifft busnes personol unigolion neu wybodaeth sy'n sensitif yn ariannol/fasnachol. Bydd agenda'r cyfarfod yn egluro sut y bydd gwybodaeth yn cael ei thrin.

Yn unol â hynny, os ydych:

- yn cyflwyno gwybodaeth i'w thrafod mewn cyfarfod Pwyllgor, neu
- yn mynd i gyfarfod Pwyllgor er mwyn siarad, neu
- yn cyflwyno dogfennau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno deisebau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno sylwadau i Bwyllgor, neu
- yn cyflwyno neu'n darparu dogfennau / deisebau ar ran eraill.

Ymdrinnir â'r wybodaeth hon yn agored ac yn gyhoeddus oni bai nad yw'r cyfarfod, neu ran o'r cyfarfod, sy'n ei drafod yn gyfarfod cyhoeddus yn unol â'r darpariaethau eithrio gwybodaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Os ydych yn cael gwybodaeth oddi wrth drydydd parti mae angen i chi sicrhau eu bod yn deall yr uchod a **chydsynio** i'w gwybodaeth gael ei rhoi yn y parth cyhoeddus.  Gall y Cyngor ofyn i chi gadarnhau hyn ac efallai na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi ymhellach oni bai ein bod yn fodlon bod trydydd partïon wedi cael gwybod am hyn.

**Sut rydym yn casglu gwybodaeth gennych?**

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych pan fyddwch yn ymweld â https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx. Hefyd, pan fyddwch yn cysylltu â ni yn ysgrifenedig, yn siarad â ni ar y ffôn, yn anfon e-bost atom neu’n siarad â ni wyneb yn wyneb.

**Pa fathau o wybodaeth rydym yn eu casglu gennych?**

Er mwyn darparu'r gwasanaeth, efallai y bydd angen i'r Cyngor brosesu rhan neu bob un o'r categorïau gwybodaeth bersonol a ganlyn ynghylch aelodau'r cyhoedd neu aelodau etholedig:

- Enw a theitl
- Cyfeiriad
- Rhif Cyswllt
- Cyfeiriad e-bost
- Sylwadau sy’n ymwneud â busnes y Cyngor
- Gofynion arbennig er mwyn mynychu cyfarfodydd, gan gynnwys siarad yn Gymraeg

**Sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Yn unol â'n tasgau cyhoeddus mae'r canlynol yn berthnasol:

- I'w defnyddio yn y cyfarfod fel y nodir uchod,
- Wrth gofrestru i siarad mewn cyfarfodydd pwyllgorau, bydd manylion aelodau o'r cyhoedd yn cael eu cynnwys yng nghronfa ddata gyfrifiadurol y Cyngor.
- Gellir rhannu unrhyw gofrestriadau i siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgorau ac unrhyw wybodaeth a gyflwynir i Gynghorwyr a’r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu gyda swyddogion y Cyngor a phartneriaid cysylltiedig (e.e. sefydliadau y mae'r Cyngor yn cydweithio â hwy i ddarparu gwasanaethau) i dderbyn eu sylwadau a'u hystyriaeth broffesiynol.
- Gellir cadw unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig a ddaw i law ar ffeil er mwyn i'r Cyngor gyfeirio ati yn y dyfodol.
- Galluogi Aelodau neu swyddogion y Cyngor i ymchwilio i neu gynorthwyo gydag unrhyw faterion y gallech fod wedi'u codi. Hefyd, fel y gallwn roi gwybod i chi am unrhyw ddiweddariadau.
- Atgyfeirio eich sylwadau cyhoeddus i Bwyllgorau er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Os rhoddir eich caniatâd datganedig, rhannu gydag aelodau eraill o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru i siarad er mwyn enwebu siaradwr.

**Pwy all weld eich gwybodaeth?**

Fel arfer byddwn ond yn rhannu data personol gyda staff Cyngor Bro Morgannwg neu Aelodau Etholedig sydd ei angen i gyflawni eu swyddogaethau. Fodd bynnag, fel yr amlinellir uchod, os caiff ei drafod mewn cyfarfod cyhoeddus, bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd.

Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn dibynnu ar nifer o eithriadau, sy'n ein caniatáu i rannu gwybodaeth heb fod angen nodi sail gyfreithlon ar gyfer y rhannu a heb fod angen rhoi gwybodaeth i chi am y rhannu.

**Seiliau cyfreithiol**

Dyma ein **seiliau cyfreithiol** ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol:

- Caniatâd.
- Os yw'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir gennym er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod a freiniwyd ynom.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu eich buddiannau hanfodol chi neu fuddiannau unigolyn arall.
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol yr ydym yn ddarostyngedig iddi.

**Beth yw'ch hawliau o ran y data personol rydym yn ei brosesu?**

- **Mynediad** – gallwch ofyn am gopïau o unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch a gedwir gan y Cyngor.
- **Cywiro** - gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir.
- **Dileu** – gallwch ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol. Gall y Cyngor wrthod dileu gwybodaeth os oes gennym reswm cyfreithiol dros ei chadw.
- **Hygludedd** – gallwch ofyn i ni drosglwyddo eich data personol i wahanol wasanaethau neu atoch chi.
- **Hawl i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu arno** – mae gennych yr hawl i wrthwynebu sut mae eich data'n cael ei ddefnyddio a sut bydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.
- **Hawl i atal penderfyniadau awtomatig** – mae gennych yr hawl i herio penderfyniad sy'n effeithio arnoch sydd wedi'i wneud yn awtomatig heb ymyrraeth gan fod dynol.

**Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**

Byddwn yn cadw a dileu'r holl gofnodion yn unol â'n hamserlen cadw cofnodion. Cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ar 01446 709 855 neu Democratic@valeofglamorgan.gov.uk i gael mwy o wybodaeth.

**Pa fesurau diogelwch sydd ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth rhag cael ei cholli, ei newid neu'i chamddefnyddio?**

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i ddiogelu data a byddwn yn cymryd yr holl gamau rhesymol a phriodol i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei chamddefnyddio, ei newid neu ei llygru, a rhag mynediad heb ei awdurdodi. Rydym wedi rhoi gweithdrefnau ffisegol, electronig a rheoliadol ar waith i ddiogelu'r

wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Fodd bynnag, ni allwn warantu diogelwch unrhyw wybodaeth rydych yn ei hanfon atom. Rydym yn argymell eich bod yn cymryd pob cam posib i warchod eich gwybodaeth bersonol.

**Ffrydio byw**

Bydd rhai cyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu ffrydio'n fyw. Byddwch yn cael gwybod ar lafar os bydd y cyfarfod rydych yn ei fynychu yn cael ei ffrydio'n fyw. Os digwydd hynny, mae hyn yn golygu y cewch eich recordio'n weledol ac mewn sain ac y bydd ar gael ar y rhyngrwyd. Gwneir hyn at ddibenion cefnogi a hyrwyddo ymgysylltu democrataidd a budd y cyhoedd. Byddwn yn cadw'r data am 6 blynedd ac yna'n ei gynnig i'r Archifydd yn Archifdy Morgannwg ar gyfer cadw'n barhaol. Mae gennych hawl i wneud cais i gael gweld, cywiro, cyfyngu ar, gwrthwynebu neu ddileu'r data hwn.

**Cwynion**

Os hoffech wneud cwyn am y defnydd o'ch data personol gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data:

**Drwy'r post:** Uned Rhyddid Gwybodaeth
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU.

**Dros y ffôn:** 01446 700111

**E-bost:** DPO@valeofglamorgan.gov.uk

I gael cyngor annibynnol ar faterion rhannu data, preifatrwydd a diogelu data, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth (CG) yn www.ico.org.uk